| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **17 Ionawr 2013** |
| **Swyddog / Aelod Arwain:** | **Aelod Arwain ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant/Pennaeth Gwasanaethau Busnes ac Oedolion** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Prosiect, Tai Gwarchod a Gofal Ychwanegol** |
| **Teitl:** | **Adolygiad o Wasanaethau Dydd Gogledd Sir Ddinbych** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r sefyllfa gyfredol o ran yr ymgynghoriad a'r adolygiad o Wasanaethau Dydd Gogledd Sir Ddinbych a'r cynigion i newid y ffordd y darperir gwasanaethau dydd yng Ngogledd Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi adborth am yr ymgynghoriad a cheisio cefnogaeth y Pwyllgor Craffu i roi'r argymhellion ar waith.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir y canlynol:

3.1 Bydd Canolfan Ddydd Hafan Deg yn darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar asesu a chanlyniadau, gan weithio'n ddwys gydag unigolion am hyd at 6 wythnos i gefnogi pobl i adfer sgiliau neu hyder a gollwyd ac, os yw'n ofynnol, eu cyfeirio at weithgareddau yn y gymuned neu eu cyfeirio at wasanaethau tymor hwy am gymorth parhaus. Bydd y gwasanaeth yn Hafan Deg yn cefnogi unigolion ledled Gogledd Sir Ddinbych.

3.2 Bydd Llys Nant, y gwasanaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn 6-8 Nant Hall Road dros dro yn symud i safle arall, ac yn darparu dwy lefel o ofal:

- Bydd un lefel i'r bobl hynny sydd wedi dod drwy'r broses asesu uchod ac sydd ag anghenion gofal cymdeithasol cymwys y gellir eu bodloni o fewn gwasanaeth gweithgaredd yn ystod y dydd, gan gynnwys bodloni anghenion gofalwyr anffurfiol.
- Bydd y lefel arall yn wasanaeth mwy ataliol, sy'n gymdeithasol ei natur ac yn seiliedig ar weithgaredd, a gall unigolion gael eu cyfeirio ato gan amrywiaeth o wasanaethau eraill.

3.3 Comisiynu darpariaeth arbenigol fesul unigolyn i'r bobl hynny na ellir bodloni eu hanghenion mewn unrhyw un o'r gwasanaethau uchod e.e. i rai unigolion

sy’n fregus eu meddwl, mewn ffordd sy’n cefnogi unigolion mewn modd hyblyg ac efallai cynyddol.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Nodwyd yn y ddogfen *Reablement Moving Forward* (Tachwedd 2010) fod angen adolygu’r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau dydd; nodwyd yn glir hefyd yn Adolygiad 2008 o Wasanaethau Dydd fod angen cynnig ystod ehangach o ddewisiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.

4.2 Ym Mhrestatyn mae 5,967 o bobl sy’n 65+ oed (Gwrywod), 60+ oed (Benywod) sef 26.36% o boblogaeth gyffredinol Prestatyn sy’n 22,629 (ffigurau 2011).

4.3 Yn y Rhyl, mae 5,980 o bobl sy’n 65+ oed (Gwrywod), 60+ oed (Benywod) sef 23.38% o boblogaeth gyffredinol y Rhyl sy’n 22,629 (ffigurau 2011).

4.4 I sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir i Bobl Hŷn yn gynaliadwy, a’u bod yn cadw i fyny â’r galw, mae angen inni flaenoriaethu’r ddarpariaeth gwasanaeth i’r rheini â’r angen mwyaf, ac mae angen i’r cymorth hwnnw ganolbwyntio ar ail-alluogi, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru fel y nodwyd yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*.

4.5 Wrth adolygu Gwasanaethau Gofal Dydd, mae’n bwysig gwahaniaethu rhwng **gweithgareddau yn ystod y dydd** a **gofal dydd**.

4.6 Yn fras, **gweithgareddau yn ystod y dydd** yw’r rheini a allai ddigwydd yn y gymuned, ac sy’n cefnogi pobl sydd ag anghenion lefel is. Gallai gweithgareddau felly gynnwys: safleoedd ffurfiol ac anffurfiol, canolfannau a gynhelir gan fudiadau gwirfoddol, canolfannau galw heibio, clybiau cinio, clybiau cymdeithasol, cyfleusterau addysg a hamdden, caffis a thafarndai. Ar hyn o bryd, mae nifer o bobl yn mynychu ein canolfannau dydd heb fod ganddynt anghenion gofal sylweddol a gellid fod wedi’u cyfeirio at weithgareddau dydd cymunedol adeg atgyfeirio.

4.7 Mae **gofal dydd** yn awgrymu felly fod angen penodol na fyddai gweithgareddau yn ystod y dydd yn ei fodloni. Byddai cynllun gofal yn nodi’n glir angen yr unigolyn a sut byddai hwn yn cael ei fodloni drwy raglenni dwys, tymor byr fel ail-alluogi ac ailsefydlu. Byddai angen gofal dydd arbenigol ar rai unigolion yn rhan o raglen o gymorth parhaus.

4.8 Rôl y tîm staff yn Hafan Deg fyddai cynnal asesiad manwl a, lle bynnag y byddai’n bosibl, cefnogi unigolion i symud i weithgareddau yn ystod y dydd sy’n gymdeithasol gynhwysol yn eu hardal leol. Lle asesir bod angen gofal dydd parhaus, dylai fod cyfleoedd o hyd i greu cysylltiadau ystyrlon â gweithgareddau cyffredin yn ystod y dydd a dylid cynnwys hyn yn y cynllun gofal.

4.9 Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol â'n Partneriaid Cymdeithas Tai yn Nant y Môr a Gorwel Newydd gyda'r bwriad o ddatblygu grwpiau gweithgaredd dydd yn y ddau Gynllun Gofal Ychwanegol ac roeddent yn agored iawn i'r awgrym o estyn y cyfleusterau cymunedol helaeth a deniadol yn y ddau gynllun i bobl a gyfeirir o'r gymuned leol. Byddai modd i'r staff gofal dydd presennol drefnu gweithgareddau yn y cynlluniau ac i'r bobl hŷn sy'n dod i gael pryd o fwyd a manteisio ar gyfleusterau eraill yn y cynllun e.e. Trinwyr Gwallt, Llyfrgell, ystafelloedd TG.

4.10 Y neges glir yn Strategaeth Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru yw y byddai'n well gan bobl, yn y dyfodol, gael eu cefnogi gan wasanaethau cymunedol lleol cynhwysol yn hytrach na gwasanaethau dydd traddodiadol. Er mwyn i Gyngor Sir Ddinbych allu darparu gwasanaethau dydd cynaliadwy i fodloni anghenion niferoedd cynyddol y bobl sy'n agored i niwed yn y dyfodol, mae'n hanfodol inni newid y ffordd y darperir y gwasanaethau hyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r adolygiad o wasanaethau dydd yn cyfrannu at y flaenoriaeth gorfforaethol ganlynol: bod Pobl sy'n Agored i Niwed yn cael eu gwarchod a'u bod yn gallu byw mor annibynnol â phosibl.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae gofyn arbed £30k eleni drwy'r adolygiad hwn o Wasanaethau Dydd a llwyddwyd i wneud hyn drwy ad-drefnu'r strwythur rheoli ar draws y ddau wasanaeth.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac a oes Sgriniad Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal?

7.1 Fel y rhoddwyd gwybod ym mis Rhagfyr 2012, cynhaliwyd Proses Ymgynghori drwyadl gyda rhanddeiliaid allweddol ac mae'r crynodeb o'r adborth o'r ymgynghoriad ynghlwm yn Atodiad 1.

7.2 Yn ogystal â'r ymgynghoriad arfaethedig, mae Papurau Gwybodaeth rheolaidd wedi'u cynhyrchu a'u cylchredeg ac mae rhanddeiliaid, gan gynnwys Aelodau a chynrychiolwyr o Grwpiau Pobl Hŷn a'r Sector Gwirfoddol, wedi cyfranogi yng nghyfarfodydd y Grŵp Adolygu Gofal Dydd.

## 8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

8.1 Mae risg i sefyllfa ariannol y Cyngor drwy beidio ag arbed yr hyn sy'n ofynnol.

8.2 Mae risg i allu pobl sy'n agored i niwed i fyw'n annibynnol os na wneir y newidiadau, oherwydd ni fydd gwasanaethau'n gallu ymdopi â'r galw cynyddol a ragwelir yn y trefniadau cyfredol.

8.3 Mae'r adolygiad yn lleihau'r ddau risg hyn.

**9. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

9.1 O dan adran 47 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gynllunio i fodloni anghenion gofal cymdeithasol pobl hŷn.

9.2 Mae Erthygl 6.3.2 (b) ac (c) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amodi y gall pwyllgorau craffu "wneud adroddiadau a/neu argymhellion i Gyngor llawn a/neu'r Cabinet mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau", ac "ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei phreswylwyr".

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Prosiect, Tai Gwarchod Gofal Ychwanegol
Ffôn: 01824 706596